Royal College of Physicians | Coleg Brenhinol y Meddygon (Cymru)

**Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru**
Tŷ Baltic
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FH

**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd CF99 1NA
SeneddHealth@Assembly.Wales

**2 Awst 2019**

Annwyl gyfaill,

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**
Diolch am y cyfle i ymateb i'ch ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Er mwyn llunio'r ymateb hwn mae Coleg Brenhinol y Meddygon wedi gweithio gyda meddygon ymgynghorol, hyfforddeion, meddygon arbenigedd ac aelodau o'n rhwydwaith cleifion a gofalwyr yng Nghymru.

| | |
|---|---|
| **Enw'r sefydliad:** | Coleg Brenhinol y Meddygon Cymru |
| **Prif berson cyswllt:** | Lowri Jackson, pennaeth polisi ac ymgyrchoedd Cymru |
| **Manylion cysylltu:** | Lowri.Jackson@rcplondon.ac.uk |

Mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn barod i gefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Rydym yn croesawu'r pwyslais ar wella ansawdd yn barhaus drwy'r system gyfan drwy sefydlu dyletswydd ar lywodraeth Cymru a GIG Cymru i wella ansawdd ac adrodd am eu cynnydd yn flynyddol. Dylai llywodraeth Cymru fod yn glir ynglŷn â beth mae'n ei olygu wrth sôn am 'ansawdd', sut y mae'n diffinio'r cysyniad a sut y mae'n mesur canlyniadau ansawdd, yn enwedig yng nghyd-destun gwasanaeth iechyd a gofal integredig. Rhaid i'r llais clinigol fod yn ganolog i'r ddadl hon, a rhaid grymuso gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i arwain newid a chodi safonau â chefnogaeth lawn eu cyflogwyr. Dylai llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn galw byrddau iechyd a chyrff y GIG i gyfrif os nad ydynt yn cydymffurfio â'r dyletswyddau gonestrwydd ac ansawdd a gynigir yn y Bil hwn.

Rydym hefyd yn croesawu datblygu dull system-gyfan o weithio gyda chleifion a'u teuluoedd pan fydd pethau'n mynd o chwith, gan gynnwys proses benodedig ar gyfer canlyniadau anffafriol. Mae'n bwysig iawn bod y dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu o ddifri â chleifion, rhanddeiliaid a chlinigwyr yn gynnar yn y broses, ac nad yw'n cael ei gyflwyno fel trefniadau wedi'u cadarnhau yn nes ymlaen.

Rydym yn cefnogi'r pwyslais ar alluogi iechyd a gofal cymdeithasol cydgysylltiedig ac integredig yng Nghymru drwy gorff newydd - Corff Llais y Dinesydd; dylai'r corff newydd hwn gael yr addysg, yr hyfforddiant a'r buddsoddiad y mae arno ei angen er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi cyngor a chefnogaeth effeithiol i gleifion, eu ffrindiau a'u teuluoedd, a'r cyhoedd mewn cysylltiad â'r gofal y maent yn ei gael. Dylai'r ddeddfwriaeth derfynol sicrhau bod gan y corff newydd hwn ar gyfer cleifion y pwerau cryfach y mae arno'u hangen er mwyn galw cyrff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gyfrif a gorfodi unrhyw argymhellion y mae'n eu gwneud. Dylai fod yn gwbl annibynnol ar y GIG a llywodraeth Cymru, a dylai gael

yr adnoddau a'r gefnogaeth y mae arno eu hangen er mwyn craffu'n drwyadl ar waith y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Dylid cael trefniadau clir ar gyfer cyfeirio penderfyniadau yn ymwneud â newid gwasanaeth gan y GIG a llywodraeth leol yn syth at lywodraeth Cymru os bydd pryder sylweddol ymhlith cleifion a'r cyhoedd ynghylch newid arfaethedig. Dylai fod yn ofynnol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru weithio mewn cysylltiad agos â'r Corff Llais y Dinesydd newydd er mwyn sicrhau bod persbectif cleifion yn cael ei adlewyrchu'n glir yn ei harolygiadau a'i gwaith ehangach.

Rydym yn cefnogi creu dyletswydd gonestrwydd ar gyfer sefydliadau'r GIG, a'r penderfyniad i benodi Is-gadeirydd ar fyrddau Ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn gwella trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Mae gan feddygon ddyletswydd i godi pryderon yn barod, fel y nodir yn nogfen y Cyngor Meddygol Cyffredinol, *Good Medical Practice*. Byddai cyflwyno dyletswydd gonestrwydd statudol ar gyfer darparwyr iechyd a gofal yn gam pwysig ychwanegol tuag at sicrhau diwylliant agored, gonest a thryloyw yn GIG Cymru. Mae Coleg Brenhinol y Meddygon o blaid penodi Gwarcheidwaid Rhyddid i Ddweud eich Dweud annibynnol ym mhob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cyflogi staff, gyda Gwarcheidwad Cenedlaethol yn atebol i sefydliad annibynnol megis Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rhaid i'r holl staff wybod yn iawn sut y gallant godi pryderon difrifol heb ofni cael eu cosbi.

Dylai llywodraeth Cymru ystyried sut y bydd yn diffinio dyletswydd gonestrwydd sefydliadol a sicrhau bod yr holl gleifion a'r staff yn cael eu grymuso i godi cwynion ac uwchgyfeirio pryderon. Unwaith eto, mae'n hanfodol bod llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn galw sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol i gyfrif os na fydd y ddyletswydd gonestrwydd yn cael ei chyflawni, gan nad oes llawer o gosbau'n cael eu nodi yn y Bil drafft presennol.

**Gwybodaeth am Goleg Brenhinol y Meddygon**
Mae ein 36,000 o aelodau ledled y byd (gan gynnwys 1,300 yng Nghymru) yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned ar draws 30 o wahanol feysydd clinigol arbenigol, gan ddiagnosio a thrin miliynau o gleifion sydd ag amrywiaeth enfawr o gyflyrau meddygol, gan gynnwys strôc, gofal am bobl hŷn, cardioleg a chlefydau anadlol. Rydym yn ymgyrchu dros welliannau i ofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd y cyhoedd. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda byrddau iechyd, ymddiriedolaethau GIG Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru; rydym yn ymweld yn rheolaidd ag ysbytai lleol i gyfarfod a sgwrsio â chleifion a staff rheng flaen; ac rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o heriau iechyd y cyhoedd.

Mae croeso i chi gysylltu â'm cydweithwraig, Lowri Jackson, pennaeth polisi ac ymgyrchoedd Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar ein gwaith. Ei chyfeiriad ebost yw Lowri.Jackson@rcplondon.ac.uk.

Dymuniadau gorau,

**Dr Gareth Llewelyn**
Is-lywydd Coleg Brenhinol y Meddygon yng Nghymru